OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1691 (Cy.121)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *1 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Gorffennaf 2002* |

Drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(4), 16(1), 17(1), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff hynny yr ymddengys iddo eu bod yn cynrychioli buddiannau y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol gan y Rheoliadau, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2002.

### Diwygio Rheoliadau blaenorol mewn perthynas â Chymru

**2.** Diwygir Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc 1997(**3**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru —

(a) drwy fewnosod, ar ddiwedd y diffiniad o "the Directive" ym mharagraff (2) o reoliad 1 (teitl, cychwyn a dehongli), y geiriau "and by Commission Directive 1999/39/EC"(**4**)); a

(b) yn rheoliad 5 (cynhyrchiad a chyfansoddiad bwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd ar gyfer babanod) —

(i) drwy ddileu'r gair "or" ar ddiwedd paragraff (c)(ii); a

(**1**) 1990 p.16. Diwygiwyd adran 6(4) gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p.40).
(**2**) Cafodd swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/2042, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/275.
(**4**) OJ Rhif L124, 18.5.1999, t.8.

(ii) drwy fewnosod, ar ddiwedd paragraff (d), y gair "or" a'i ddilyn gan y paragraff canlynol:

"(e) which —

(i) if it is manufactured as ready for consumption, contains, and

(ii) if it is not so manufactured, would if reconstituted according to its manufacturer's instructions contain,

residues of any individual pesticide at a level exceeding 0.01mg/kg.".

Llofnodwyd ar ran Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*Dafydd Elis-Thomas*

1 Mai 2001 — Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc 1997 mewn perthynas â Chymru, wrth weithredu Cyfarwyddeb 1999/39/EC y Comisiwn sy'n diwygio Cyfarwyddeb 96/5/EC ar fwydydd proses sydd wedi'u seilio ar rawn a bwydydd ar gyfer babanod a phlant ifanc.

Mae'r rheoliadau'n estyn y gwaharddiadau ar gynhyrchu a gwerthu yn Rheoliadau 1997 i fwyd o'r natur honno sy'n cynnwys gweddillion plaleiddiaid unigol dros lefel o 0.01 mg/kg, a fesurir pan fydd yn barod i'w ddefnyddio neu pan fydd wedi'i hailgyfansoddin unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr (rheoliad 2(b)), a diweddaru'r cyfeiriad at Gyfarwyddeb 1996 (rheoliad 2(a)).

Mae arfarniad rheoliadol ar gyfer y Rheoliadau hyn wedi'i baratoi yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac wedi'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 1, Southgate House Caerdydd CF10 1EW.